

Datganiad Parth Gwarchod a Pharth Gwylidwriaeth (Ffliw Adar)

Mae Prif Swyddog Milfeddygol Cymru wedi cadarnhau bod y ffliw adar pathogenig iawn yn bresennol ar safle yng Nghymru yn unol ag erthygl 28(1) o [Orchymyn Ffliw Adar a Ffliw sy'n Deillio o Adar mewn Mamaliaid \(Cymru\) \(Rhif 2\) 2006](#)¹ ("y Gorchymyn").

Yn unol ag erthyglau 28(1) a 29(1) o'r Gorchymyn ac yn ystyried meini prawf sydd wedi'u manyli yn erthygl 29(5), mae Gweinidogion Cymru felly'n datgan bod yr ardal a ddisgrifir yn Adran 1 o'r Datganiad hwn yn Barth Gwarchod y mae holl fesurau [Atodlen 4](#) y Gorchymyn yn berthnasol iddo².

Yn unol ag erthyglau 28(1) a 29(2) o'r Gorchymyn ac yn ystyried meini prawf sydd wedi'u manyli yn erthygl 29(5), mae Gweinidogion Cymru felly'n datgan bod yr ardal a ddisgrifir yn Atodiad 2 o'r Datganiad hwn yn Barth Gwylidwriaeth y mae holl fesurau [Atodlen 5](#) y Gorchymyn yn berthnasol iddo³.

Mae'r Parthau Gwarchod a Gwylidwriaeth wedi'u nodi ar y map yn Atodiad 3.

Mae'r mesurau hyn yn berthnasol o 18:00 ar 27 Ebrill 2023 hyd nes y bydd y Datganiad hwn yn cael ei dynnu'n ôl neu ei ddiddymu drwy ddatganiad pellach.

Mae'r Parth Gwarchod a'r Parth Gwylidwriaeth yn canoli ar gyfeirnod grid SO1281197467.

Llofnodwyd: Richard Irvine, Prif Swyddog Milfeddygol Cymru

Dyddiedig: 18:00 ar 27 Ebrill 2023

O dan awdurdod Gweinidog yr Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru.

Gallu methu â chydymffurfio â'r Datganiad hwn fod yn drosedd o dan adran 72 neu 73 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981.

Mae Atodlenni i'r Gorchymyn wedi'u hatodi yn atodiad 1 a 2 er mwyn gallu cyfeirio'n hawdd.

¹ OS 2006 / 2927 (W.262)

² Yn unol ag erthyglau 30(1) o'r Gorchymyn, mae'r mesuriadau o fewn Atodlen 4 yn berthnasol i'r parth gwarchod

³ Yn unol ag erthyglau 31(1) o'r Gorchymyn, mae'r mesuriadau o fewn Atodlen 5 yn berthnasol i'r parth gwylidwriaeth

Mae copiiau o'r Datganiad hwn ar gael ar [dudalennau.gwe](#) Llywodraeth Cymru a gan Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Atodiad 1**Parth Gwarchod**

Mae'r Parth Gwarchod yn cynnwys y rhan honno o Bowys sydd wedi'i chynnwys o fewn y cylch glas o radiws o 3 cilometr sydd yng nghanol cyfeirnod grid SO1281197467. Cyfeirnod grid Arolwg Ordnans yw hwn [cyfres Landranger 1:110,000]. Y parth yw'r ardal o fewn y cylch glas llai ar y map a ddarparwyd yn Atodiad 3.

Y Mesurau mewn Parth Gwarchod:**Cofnod o ymwelwyr**

1. Yn amodol ar baragraff 5, mae'n rhaid i feddiannydd y parth lle cedwir y dofednod neu adar caeth eraill gadw cofnodion o—
 - (a) enw a chyfeiriad unrhyw berson sy'n ymweld â'r safle (oni bai bod yr ymweliad i ran o'r safle yn unig lle mae pobl yn byw a lle na chedwir unrhyw ddofednod neu adar caeth eraill);
 - (b) dyddiad yr ymweliad;
 - (c) a yw'r person wedi cael unrhyw gysylltiad â dofednod neu adar caeth eraill ar y safle.

Cofnod o ddofednod

2. Mae'n rhaid i feddiannydd unrhyw safle yn y parth wneud cofnod o'r holl ddofednod sy'n cyrraedd neu'n gadael y safle hwnnw cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl y symud.

Cofnod o symudiadau dofednod ac wyau

3. Yn amodol ar baragraff 5, mae'n rhaid i unrhyw berson sy'n ymwneud â chludo neu farchnata dofednod neu wyau dofednod yn y parth wneud cofnod cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol o'r holl ddofednod ac wyau dofednod y mae wedi'u cludo neu eu marchnata.

Symudiadau dofednod i'w cofnodi

4. Mae'n rhaid i'r cofnodion y cyfeiriwyd atynt ym mharagraffau 2 a 3 uchod gynnwys—
 - (a) swm a disgrifiad (yn cynnwys rhywogaethau'r dofednod neu fath o wy) a gludwyd neu a farchnatwyd;
 - (b) yn achos symud o safle yn y parth—
 - (i) dyddiad y symud o'r safle;
 - (ii) safle cyrchfan (os yw'n hysbys);
 - (iii) enw a chyfeiriad y person y mae perchnogaeth neu feddiannaeth yn cael ei throsglwyddo neu wedi'i throsglwyddo iddo;

- (c) yn achos symud i safle yn y parth—
 - (i) dyddiad y symud;
 - (ii) y safle y symudwyd ohono (os yw'n hysbys);
 - (iii) enw a chyfeiriad y person sydd neu sydd wedi trosglwyddo perchnogaeth neu feddiannaeth;
- (d) yn achos marchnata heb symud cysylltiedig, enw a chyfeiriad y person y trosglwyddwyd y feddiannaeth iddo a'r dyddiad;

Cwmpas dyletswyddau cadw cofnodion

- 5. Nid yw paragraffau 1 a 3 yn berthnasol i'r canlynol—
 - (a) symud wyau'n uniongyrchol i safle manwerthu, ar neu o safle o'r fath neu'n dilyn symudiad o'r fath;
 - (b) symudiad pobl i swau, parciau bywyd gwyllt neu (oni bai ei fod yn ofynnol gan Weinidogion Cymru) unrhyw safle arall sy'n agored i'r cyhoedd, cyn belled nad oes gan y cyhoedd fynediad i unrhyw ardal lle mae adar yn cael eu cadw;
 - (c) symudiad y canlynol i safle lle mae dofednod neu adar caeth eraill yn cael eu cadw—
 - (i) unrhyw berson ar hawl dramwy gyhoeddus neu sy'n defnyddio hawl dramwy i gael mynediad i'r safle;
 - (ii) tresmaswyr;
 - (iii) unrhyw berson sy'n gweithredu'r Gorchymyn hwn.

Ynysu dofednod ac adar caeth eraill

- 6. Mae'n rhaid i feddiannydd y safle yn y parth lle cedwir dofednod neu adar caeth eraill sicrhau eu bod—
 - (a) dan do; neu
 - (b) wedi eu hynysu (os yw arolygydd milfeddygol yn gorchymyn hynny ar y sail nad yw eu cadw dan do yn ymarferol neu y byddai hynny'n cael effaith andwyol ar les yr adar i raddau sylweddol).

Mesurau lle nad yw adar yn cael eu cadw dan do

- 7. Os yw adar yn cael eu hynysu ond nid eu cadw dan do, mae'n rhaid i'r meddiannydd—
 - (a) sicrhau nad ydynt yn dod i gysylltiad â dofednod neu adar caeth eraill ar safle arall; a
 - (b) cymryd pob cam rhesymol i leihau eu cysylltiad ag adar gwyllt, yn unol â chyfarwyddiadau arolygydd milfeddygol.

Cyfyngiadau ar symud dofednod, adar caeth eraill a mamaliaid ar ac oddi ar safle

- 8. (1) Yn amodol ar is-baragraff (2), ni chaiff unrhyw berson symud dofednod, adar caeth eraill na mamaliaid i neu o safle yn y parth lle cedwir dofednod neu adar caeth eraill, oni bai bod y symud wedi'i drwyddedu gan arolygydd milfeddygol neu gan arolygydd o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol.

- (2) Nid yw is-baragraff (1) yn berthnasol i anifeiliaid anwes—
- (a) sydd ddim ond yn gallu cael mynediad i ran honno o'r safle lle mae pobl yn byw;
 - (b) nad ydynt yn dod i gysylltiad â dofednod neu adar caeth eraill ar y safle; ac
 - (c) nad oes ganddynt fynediad i unrhyw gewyll neu ardaloedd ar y safle lle cedwir dofednod neu adar caeth eraill.

Gwaredu carcasau

9. Mae'n rhaid i'r meddiannydd sicrhau bod pob carcass nad yw wedi'i atafaelu neu ei waredu gan arolygydd milfeddygol yn cael ei waredu yn unol â chyfarwyddiadau arolygydd milfeddygol (oni bai ei fod yn rhoi trwydded i'w defnyddio ar gyfer gwneud diagnosis o glefydau).

Mesurau bioddiogelwch

10. Mae'n rhaid i'r meddiannydd ac unrhyw berson sy'n cyrraedd neu'n gadael y safle yn y parth lle cedwir dofednod, neu adar caeth eraill neu wyau—
- (a) gymryd mesurau bioddiogelwch fel y mae'n ystyried sydd eu hangen i leihau'r risg o ledaenu fflw adar i neu o'r safle; a
 - (b) chydymffurfio ag unrhyw ofynion bioddiogelwch y mae arolygydd milfeddygol neu arolygydd o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol, drwy hysbysiad iddo, yn eu gosod.

Sarn, tail dofednod a slyri

11. Ni chaiff unrhyw berson symud na lledaenu sarn dofednod a ddefnyddiwyd, tail dofednod na slyri dofednod yn y parth oni bai bod arolygydd milfeddygol neu arolygydd o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol wedi trwyddedu hynny.

Crynoadau o ddofednod

12. Ni chaiff unrhyw berson ganiatáu i ddofednod neu unrhyw adar caeth eraill gael eu casglu mewn unrhyw ffair, marchnad, sioe, arddangosfa neu unrhyw grynhoad arall yn y parth.

Rhyddhau adar hela

13. Ni chaiff unrhyw berson ryddhau adar hela.

Cyfyngiadau ar symud dofednod, wyau, cig dofednod a charcasau

14. Ni chaiff unrhyw berson symud unrhyw ddofednod, wyau, cig dofednod na charcasau o fewn neu allan o'r parth oni bai bod y symud—
- (a) wedi'i nodi ym mharagraff 16 ac ym—
 - (i) uniongyrchol; a
 - (ii) wedi'i drwyddedu gan arolygydd milfeddygol neu gan arolygydd o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol;
 - (b) yn wyau bwrdd sy'n cael eu symud yn uniongyrchol i safle cyfanwerthu neu fanwerthu, neu'n dilyn symudiad o'r fath

- (c) o fewn yr un safle.

Cludiant ar y ffordd a'r rheilffordd

15. Gellir cludo dofednod ac wyau drwy'r parth ar briffordd neu reilffordd os nad oes rhaid aros ar y ffordd o fewn y parth.

Symudiadau y gall arolygydd milfeddygol neu arolygydd o dan ei gyfarwyddyd eu trwyddedu

16. Y symudiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff 14(a) yw symudiadau—
- (a) dofednod o safle yn y parth i'w lladd yn syth mewn lladd-dy dynodedig (os bodlonir gofynion paragraff 17);
 - (b) cig dofednod (os bodlonir gofynion paragraff 18);
 - (c) dofednod i ladd-dy dynodedig yn y parth o safle y tu allan i'r parth (os bodlonir gofynion paragraff 19);
 - (d) cywion diwrnod oed sydd wedi deor o wyau a gynhyrchwyd yn y parth neu o wyau a ddaeth i gysylltiad ag wyau o'r fath (os bodlonir gofynion paragraff 20);
 - (e) cywion diwrnod oed sydd wedi deor o wyau sy'n deillio o'r tu allan i'r parth gwarchod ac a gadwyd ar wahân i wyau a gynhyrchwyd mewn parth o'r fath (os bodlonir gofynion paragraff 21);
 - (f) dofednod sy'n barod i ddodwy i safle neu ran o safle lle nad oes dofednod yn cael eu cadw (os bodlonir gofynion paragraff 22);
 - (g) wyau sy'n deor o'r tu allan i'r parth i ddeorfa ddynodedig yn y parth neu i safle dynodedig i'w defnyddio at ddibenion gwyddonol, diagnostig neu fferyllol;
 - (h) wyau sy'n deor o'r parth—
 - (i) i ddeorfa ddynodedig; neu
 - (ii) i safle dynodedig i'w defnyddio at ddibenion gwyddonol, diagnostig neu fferyllol (os bodlonir gofynion paragraff 23 yn y ddau achos);
 - (i) wyau i ganolfan pacio wyau ddynodedig (os bodlonir gofynion paragraff 24);
 - (j) wyau i waith prosesu wyau;
 - (k) wyau ar gyfer eu gwaredu;
 - (l) carcasau ar gyfer eu gwaredu neu wneud diagnosis.

Gofynion i symud dofednod o safle yn y parth i ladd-dy dynodedig

17. Ni ddylid symud dofednod i ladd-dy dynodedig oni bai bod y gofynion canlynol yn cael eu bodloni—
- (a) bod arolygydd milfeddygol wedi archwilio'r dofednod yn y safle llai na 24 awr cyn iddynt adael y safle; a
 - (b) bod y dofednod yn cael eu cludo mewn cerbydau wedi'u selio gan arolygydd milfeddygol neu yn unol â'i gyfarwyddiadau.

Gofynion i symud cig dofednod o ddofednod a anfonwyd i ladd-dy dynodedig o safle yn y parth

18. Ni ddylid symud cig dofednod o ddofednod yn y parth o ladd-dy dynodedig oni bai ei fod yn bodloni gofynion erthygl 63(2) y Gorchymyn.

Gofynion i symud dofednod i ladd-dy dynodedig o fewn y parth i safle y tu allan i'r parth

19. Ni ddylid symud dofednod o safle y tu allan i'r parth i ladd-dy dynodedig yn y parth oni bai bod y dofednod yn cael eu cadw ar wahân i ddofednod sy'n deillio o'r parth.

Gofynion i symud cywion diwrnod oed sydd wedi deor o wyau a gynhyrchwyd yn y parth neu o wyau a ddaeth i gysylltiad ag wyau o'r fath

20. Ni ddylid symud cywion diwrnod oed o wyau a gynhyrchwyd yn y parth neu o wyau sydd wedi dod i gysylltiad ag wyau o'r fath oni bai eu bod yn cael eu cludo mewn cerbydau wedi'u selio gan arolygydd milfeddygol neu yn unol â'i gyfarwyddiadau.

Gofynion i symud cywion diwrnod oed sydd wedi deor o wyau sy'n deillio o'r tu allan i'r parth

21. Ni ddylid symud cywion diwrnod oed sy'n deillio o'r tu allan i'r parth gwarchod oni bai bod y ddeorfa yn y parth gwarchod yn cael ei gweithredu mewn ffordd sy'n golygu na ddaw'r wyau hynny i gysylltiad ag wyau neu gywion diwrnod oed o fewn y parth.

Gofynion i symud dofednod sy'n barod i ddodwy

22. Ni ddylid symud dofednod sy'n barod i ddodwy o'r safle yn y parth oni bai—
(a) bod dofednod ac adar caeth eraill ar y safle wedi'u harchwilio gan arolygydd milfeddygol; a
(b) bod y dofednod sy'n barod i ddodwy yn cael eu cludo mewn cerbydau sydd wedi'u selio gan yr arolygydd milfeddygol neu yn unol â'i gyfarwyddiadau.

Gofynion i symud wyau sy'n deor o'r parth i ddeorfa ddynodedig neu i safle dynodedig i'w defnyddio at ddibenion gwyddonol, diagnostig neu fferyllol

23. Ni ddylid symud wyau sy'n deor o'r parth i ddeorfa ddynodedig, neu i safle dynodedig i'w defnyddio at ddibenion gwyddonol, diagnostig neu fferyllol oni bai—
(a) bod arolygydd milfeddygol wedi cadarnhau nad yw'n amau fflw adar yn yr haid y mae'r wyau'n deillio ohonynt;
(b) bod yr wyau a'u deunydd pacio wedi'u diheintio cyn eu danfon; a
(c) bod yr wyau'n cael eu cludo mewn cerbydau sy'n cael eu selio gan arolygydd milfeddygol neu yn unol â'i gyfarwyddiadau.

Gofynion i symud wyau i ganolfan pacio wyau

-
24. Ni ddylid symud wyau i ganolfan pacio wyau ddynodedig oni bai—
- (a) eu bod wedi'u pacio mewn deunydd pacio y gellir ei daflu; a
 - (b) bod unrhyw berson sy'n cludo'r wyau'n cydymffurfio ag unrhyw ofynion bioddiogelwch a bennwyd gan arolygydd milfeddygol, drwy hysbysiad neu drwy amod trwydded.

Gofynion mewn lladd-dai

25. Mae'n rhaid i feddiannydd y lladd-dy yr anfonir y dofednod o'r parth ato sicrhau bod gofynion erthygl 63 y Gorchymyn cael eu bodloni.

Gofynion ar gyfer cig dofednod o'r parth

26. Mae cig dofednod yn y parth o ddofednod sy'n deillio o'r parth yn destun gofynion a nodwyd yn erthyglau 63(3) a 63(4) y Gorchymyn.

Gofynion ar gyfer cig dofednod o'r tu allan i'r parth

27. Mae cig dofednod yn y parth o ddofednod sy'n deillio o'r tu allan i'r parth yn ddarostyngedig i'r gofynion a nodir yn erthygl 63(3)(a) y Gorchymyn.

Glanhau a diheintio cerbydau sy'n cludo unrhyw beth a allai fod wedi'i halogi

28. Mae'n rhaid i unrhyw berson sy'n symud unrhyw ddofednod, aderyn caeth arall, cig, porthiant, tail, slyri, sarn neu unrhyw beth arall a allai fod wedi'i halogi, lanhau a diheintio'r cerbyd ac unrhyw gyfarpar a ddefnyddiwyd i gludo'r peth hwnnw cyn gynted ag y bydd wedi'i ddadlwytho, yn unol ag erthygl 66 y Gorchymyn.

Glanhau a diheintio cerbydau

29. Mae'n rhaid i berson sy'n cyrraedd neu'n gadael safle yn y parth mewn cerbyd lanhau a diheintio unrhyw ran o'r cerbyd a allai fod wedi'i halogi yn ddi-oed, yn unol ag erthygl 66 y Gorchymyn.

Mynediad i lefydd gwaharddedig

30. Ni chaiff unrhyw berson fynd i unrhyw le sy'n destun hysbysiad gwahardd o dan erthygl 79 y Gorchymyn ac eithrio yn unol â'r hysbysiad hwnnw neu erthygl 35 y Gorchymyn.

Atodiad 2**Parth Gwyliadwriaeth**

Mae'r Parth Gwyliadwriaeth yn cynnwys yr ardal o Bowys, sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 3, y tu hwnt i'r cylch glas (y Parth Gwarchod) ac o fewn y cylch du o radiws o 10 cilometr, sydd yng nghanol cyfeirnod grid xxx. Cyfeirnod grid Arolwg Ordnans yw hwn [cyfres Landranger 1:110,000].

Mesurau mewn Parth Gwyliadwriaeth**Cofnod o ymwelwyr**

1. Yn amodol ar baragraff 5, mae'n rhaid i feddiannydd y parth lle cedwir y dofednod neu adar caeth eraill gadw cofnodion o—
 - (a) enw a chyfeiriad unrhyw berson sy'n ymweld â'r safle (oni bai bod yr ymweliad i ran o'r safle yn unig lle mae pobl yn byw a lle na chedwir unrhyw ddofednod neu adar caeth eraill);
 - (b) dyddiad yr ymweliad;
 - (c) a yw'r person wedi cael unrhyw gysylltiad â dofednod neu adar caeth eraill ar y safle.

Cofnod o ddofednod

2. Mae'n rhaid i feddiannydd unrhyw safle yn y parth wneud cofnod o'r holl ddofednod sy'n cyrraedd neu'n gadael y safle hwnnw cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl y symud.

Cofnod o symudiadau dofednod

3. Yn amodol ar baragraff 5, mae'n rhaid i unrhyw berson sy'n ymwneud â chludo neu farchnata dofednod neu wyau dofednod yn y parth wneud cofnod cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol o'r holl ddofednod ac wyau dofednod y mae wedi'u cludo neu eu marchnata.

Symudiadau dofednod i'w cofnodi

4. Mae'n rhaid i'r cofnodion y cyfeiriwyd atynt ym mharagraffau 2 a 3 uchod gynnwys—
 - (a) swm a disgrifiad (yn cynnwys rhywogaethau'r dofednod neu fath o wy) a gludwyd neu a farchnatwyd;
 - (b) yn achos symud o safle yn y parth—
 - (i) dyddiad y symud o'r safle;
 - (ii) safle cyrchfan (os yw'n hysbys);
 - (iii) enw a chyfeiriad y person y mae perchnogaeth neu feddiannaeth yn cael ei throsglwyddo neu wedi'i throsglwyddo iddo;

- (c) yn achos symud i safle yn y parth—
 - (i) dyddiad y symud;
 - (ii) safle y symudwyd ohono (os yw'n hysbys);
 - (iii) enw a chyfeiriad y person sydd neu sydd wedi trosglwyddo perchnogaeth neu feddiannaeth;
- (d) yn achos marchnata heb symud cysylltiedig, enw a chyfeiriad y person y trosglwyddwyd y feddiannaeth iddo a'r dyddiad;

Cwmpas dyletswyddau cadw cofnodion

5. Nid yw paragraffau 1 a 3 yn berthnasol i'r canlynol—
- (a) symud wyau'n uniongyrchol i safle manwerthu, ar neu o safle o'r fath neu'n dilyn symudiad o'r fath;
 - (b) symudiad pobl i sŵau, parciau bywyd gwyllt neu (oni bai ei fod yn ofynnol gan Weinidogion Cymru) unrhyw safle arall sy'n agored i'r cyhoedd, cyn belled nad oes gan y cyhoedd fynediad i unrhyw ardal lle mae adar yn cael eu cadw;
 - (c) symudiad y canlynol i safle lle mae dofednod neu adar caeth eraill yn cael eu cadw—
 - (i) unrhyw berson ar hawl dramwy gyhoeddus neu sy'n defnyddio hawl dramwy i gael mynediad i'r safle;
 - (ii) tresmaswyr;
 - (iii) unrhyw berson sy'n gweithredu'r Gorchymyn hwn.

Cyfyngiadau ar symud dofednod, adar caeth eraill a mamaliaid ar ac oddi ar safle

6. (1) Yn amodol ar is-baragraff (2), ni chaiff unrhyw berson symud dofednod, adar caeth eraill na mamaliaid i neu o safle yn y parth lle cedwir dofednod neu adar caeth eraill, oni bai bod y symud wedi'i drwyddedu gan arolygydd milfeddygol neu gan arolygydd o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol.
- (2) Nid yw is-baragraff (1) yn berthnasol i anifeiliaid anwes—
- (a) sydd ddim ond yn gallu cael mynediad i ran honno o'r safle lle mae pobl yn byw;
 - (b) nad ydynt yn dod i gysylltiad â dofednod neu adar caeth eraill ar y safle; ac
 - (c) nad oes ganddynt fynediad i unrhyw gewyll neu ardaloedd ar y safle lle cedwir dofednod neu adar caeth eraill.

Mesurau bioddiogelwch

7. Mae'n rhaid i'r meddiannydd ac unrhyw berson sy'n cyrraedd neu'n gadael y safle yn y parth lle cedwir dofednod, neu adar caeth eraill neu wyau—
- (a) gymryd mesurau bioddiogelwch fel y mae'n ystyried sydd eu hangen i leihau'r risg o ledaenu fflw adar i neu o'r safle; a
 - (b) cydymffurfio ag unrhyw ofynion bioddiogelwch y mae arolygydd milfeddygol neu arolygydd o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol, drwy hysbysiad iddo, yn eu gosod.

Sarn, tail dofednod a slyri

-
8. Ni chaiff unrhyw berson symud na lledaenu sarn dofednod a ddefnyddiwyd, tail dofednod na slyri dofednod yn y parth oni bai bod arolygydd milfeddygol neu arolygydd o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol wedi trwyddedu hynny.

Crynoadau o ddofednod

9. Ni chaiff unrhyw berson ganiatáu i ddofednod neu unrhyw adar caeth eraill gael eu casglu mewn unrhyw ffair, marchnad, sioe, arddangosfa neu unrhyw grynhoad arall yn y parth.

Rhyddhau adar hela

10. Ni chaiff unrhyw berson ryddhau adar hela.

Cyfyngiadau ar symud dofednod ac wyau yn y parth

11. Yn amodol ar baragraff 12, ni chaiff unrhyw berson symud unrhyw ddofednod neu wyau o fewn y parth (ac eithrio drwy'r parth ar y ffordd neu'r rheilffordd heb aros), oni bai bod hynny wedi'i drwyddedu gan arolygydd milfeddygol.

Dosbarthu wyau i safleoedd cyfanwerthu neu fanwerthu yn y parth

12. Nid yw paragraff 11 yn berthnasol i symud wyau'n uniongyrchol i safleoedd cyfanwerthu neu fanwerthu, neu'n dilyn symudiad o'r fath.

Mesurau bioddiogelwch

13. Ni ddylai arolygydd milfeddygol roi trwydded o dan baragraff 11 oni bai ei fod yn fodlon y bydd y trwyddedai'n cymryd mesurau bioddiogelwch priodol ac mae'n rhaid i gymryd mesurau o'r fath fod yn amodau'r drwydded.

Symud dofednod i ladd-dy

14. Gall arolygydd milfeddygol roi trwydded i symud dofednod o'r tu allan i unrhyw barthau gwarchod a gwylidwriaeth fflw adar i ladd-dy o fewn y parth gwylidwriaeth a symudiadau dilynol y cig sy'n deillio o ddofednod o'r fath.

Cyfyngiadau ar symud dofednod ac wyau allan o'r parth

15. (1) Yn amodol ar baragraff 16, ni chaiff unrhyw berson symud unrhyw ddofednod neu wyau allan o'r parth, oni bai bod y symud yn—
- (a) symudiad a nodwyd yn is-baragraff (2); ac
 - (b) wedi'i drwyddedu gan arolygydd milfeddygol.
- (2) Mae'r symudiadau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (1) yn symudiadau—
- (a) dofednod i'w lladd (os bodlonir gofynion paragraff 17);

- (b) cywion diwrnod oed sydd wedi deor o wyau a gynhyrchwyd yn y parth gwarchod neu barth gwyliadwriaeth neu o wyau a ddaeth i gysylltiad ag wyau o'r fath (os bodlonir gofynion paragraff 18);
- (c) cywion diwrnod oed sydd wedi deor o wyau sy'n deillio o'r tu allan i'r parth gwarchod a pharth gwyliadwriaeth ac a gadwyd ar wahân i wyau a gynhyrchwyd mewn parth o'r fath (os bodlonir gofynion paragraff 19);
- (d) dofednod sy'n barod i ddodwy i safle neu ran o safle lle nad oes dofednod yn cael eu cadw;
- (e) wyau sy'n deor o'r parth—
 - (i) i ddeorfa ddynodedig; neu
 - (ii) i safle dynodedig i'w defnyddio at ddibenion gwyddonol, diagnostig neu fferyllol (os bodlonir gofynion paragraff 20 yn y ddau achos);
- (f) wyau i ganolfan pacio wyau ddynodedig (os bodlonir gofynion paragraff 21);
- (g) wyau i waith prosesu wyau;
- (h) wyau ar gyfer eu gwaredu;

Dosbarthu wyau bwrdd i safleoedd cyfanwerthu a manwerthu

16. Nid yw paragraff 15 yn berthnasol i symud wyau bwrdd yn uniongyrchol i safleoedd cyfanwerthu neu fanwerthu, neu'n dilyn symudiad o'r fath.

Gofynion i symud dofednod o safle yn y parth i ladd-dy dynodedig

17. Gellir symud dofednod o safle yn y parth i ladd-dy dynodedig, ond dim ond o fewn 24 awr i gwblhau archwiliad milfeddygol o'r safle.

Gofynion i symud cywion diwrnod oed sydd wedi deor o wyau a gynhyrchwyd yn y parth gwarchod neu wylidwriaeth neu o wyau a ddaeth i gysylltiad ag wyau o'r fath

18. Ni ddylid symud cywion diwrnod oed o wyau a gynhyrchwyd yn y parth gwarchod neu o wyau sydd wedi dod i gysylltiad ag wyau o'r fath oni bai y cydymffurfir ag unrhyw fesurau bioddiogelwch a bennwyd gan arolygydd milfeddygol drwy hysbysiad neu amod trwydded.

Gofynion i symud cywion diwrnod oed sydd wedi deor o wyau sy'n deillio o'r tu allan i'r parthau gwarchod a gwyliadwriaeth

19. Ni ddylid symud cywion diwrnod oed sy'n deillio o'r tu allan i unrhyw barthau gwarchod a gwyliadwriaeth fflw adar oni bai bod y ddeorfa yn y parth yn cael ei gweithredu mewn ffordd sy'n golygu na ddaw'r wyau hynny i gysylltiad ag wyau neu gywion diwrnod oed o fewn y parth.

Gofynion i symud wyau sy'n deor o'r parth i ddeorfa ddynodedig neu i safle dynodedig i'w defnyddio at ddibenion gwyddonol, diagnostig neu fferyllol

-
20. Ni ddylid symud wyau sy'n deor o'r parth i ddeorfa ddynodedig, neu i safle dynodedig i'w defnyddio at ddibenion gwyddonol, diagnostig neu fferyllol oni bod yr wyau a'u deunydd pacio wedi'u diheintio cyn iddynt adael y safle.

Gofynion i symud wyau i ganolfan pacio wyau

21. Ni ddylid symud wyau i ganolfan pacio wyau ddynodedig oni bai—
- eu bod wedi'u pacio mewn deunydd pacio y gellir ei daflu; a
 - bod unrhyw berson sy'n cludo'r wyau'n cydymffurfio ag unrhyw fesurau bioddiogelwch a bennwyd gan arolygydd milfeddygol.

Glanhau a diheintio cerbydau sy'n cludo unrhyw beth a allai fod wedi'i halogi

22. Mae'n rhaid i unrhyw berson sy'n symud unrhyw ddofednod, aderyn caeth arall, cig, porthiant, tail, slyri, sarn neu unrhyw beth arall a allai fod wedi'i halogi, lanhau a diheintio'r cerbyd ac unrhyw gyfarpar a ddefnyddiwyd i gludo'r peth hwnnw cyn gynted ag y bydd wedi'i ddadlwytho, yn unol ag erthygl 66 y Gorchymyn.

Glanhau a diheintio cerbydau

23. Mae'n rhaid i berson sy'n cyrraedd neu'n gadael safle yn y parth mewn cerbyd lanhau a diheintio unrhyw ran o'r cerbyd a allai fod wedi'i halogi yn ddi-oed, yn unol ag erthygl 66 y Gorchymyn.

Atodiad 3

Map yn dangos y Parth Gwarchod (3km) a'r Parth Gwylidwraeth (10km) yng nghanol cyfeirnod grid SO1281197467.

Cyfeirnod grid yr Arolwg Ordnans yw hwn [cyfres Landranger 1:110,000].

